**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU CORFFORAETHOL**
**19 MEDI 2019**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora Delyn, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug, ddydd Iau 19 Medi 2019.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Clive Carver (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Haydn Bateman, Bob Connah, Paul Cunningham, Mared Eastwood, Patrick Heesom, Paul Johnson, Richard Jones, Vicky Perfect, Andy Williams ac Arnold Woolley

**DIRPRWY:** Y Cynghorydd: David Wisinger (ar ran Michelle Perfect)

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr: Geoff Collett; Aaron Shotton; Ian Roberts, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet dros Addysg; Billy Mullin, Aelod Cabinet dros Reoli Corfforaethol ac Asedau; a’r Prif Swyddog (Llywodraethu)

**CYFRANWYR:** Cynghorydd Carolyn Thomas, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Strydwedd a Chefn Gwlad; Cynghorydd Glyn Banks, Aelod Cabinet dros Gyllid; Cynghorydd Chris Bithell, Aelod Cabinet dros Gynllunio a Gwarchod Y Cyhoedd; Cynghorydd Christine Jones, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol; Prif Weithredwr; Rheolwr Cyllid Corfforaethol; a Rheolwr Cyllid

Ar gyfer cofnod rhif 36
Rheolwr Gwarchod Cymunedau a Busnes; Arweinydd Tîm Diogelwch Cymunedol; Ymgynghorydd Rhanbarthol Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol; Arolygydd Rhanbarth Gareth Cust o Heddlu Gogledd Cymru; Cydlynydd Ymddygiad Gwrthgymdeithasol; a Rheolwr Partneriaeth ar gyfer Wrecsam a Sir y Fflint, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Ar gyfer cofnodion rhif 40 a 41
Ymgynghorydd Gwybodaeth Busnes a Chydymffurfiaeth; a Phartner Busnes Adnoddau Dynol

Ar gyfer cofnod rhif 42
Rheolwr Cyflawni Gwasanaeth, Priffyrdd a Gwastraff; Rheolwr Uned Trafnidiaeth Integredig; a Rheolwr Gwasanaethau Rheoledig

Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol); Uwch-reolwr (Plant a’r Gweithlu); ac Uwch-reolwr, Cynhwysiant a Chynnydd

**HEFYD YN BRESENNOL:** Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**33. DATGAN CYSYLLTIAD**

Datganodd y Cynghorydd Williams gysylltiad personol yn eitem 11 ar y Rhaglen (Amrywiadau Arwyddocaol) oherwydd ei gysylltiadau â busnes sy’n darparu cludiant i'r ysgol.

**34. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf ac 12 Awst 2019.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo’r cofnodion fel rhai cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

**35. OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU**

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad yn nodi cynnydd ar bwyntiau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd sydd wedi’i wneud.

**36. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y BARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad blynyddol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a oedd yn rhoi trosolwg weithgareddau’r 12 mis diwethaf. Cafodd dyletswyddau statudol y Bartneriaeth eu cyflawni trwy Fwrdd Y Gwasanaethau Cyhoeddus a arweinir gan Sir y Fflint.

Cafodd yr Aelodau eu cyflwyno i Sian Jones, Rheolwr Gwarchod Cymunedau a Busnes; Richard Powell, Arweinydd Tîm Diogelwch Cymunedol; Rhiannon Edwards, Ymgynghorydd Rhanbarthol Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol; Arolygydd Rhanbarth Gareth Cust o Heddlu Gogledd Cymru; Gerwyn Davies, Cydlynydd Ymddygiad Gwrthgymdeithasol; a Mike White, Rheolwr Partneriaeth Wrecsam a Sir y Fflint, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Cafwyd cyflwyniad manwl yn ymwneud â'r meysydd canlynol:

- Cyd-destun
- Grwpiau Cyflawni Diogelwch Cymunedol
- Cyflawniadau
- Perfformiad
- Rhyngweithio gyda’r Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel
- Blaenoriaethau lleol ar gyfer 2018/19

Adroddodd Arweinydd y Tîm Diogelwch Cymunedol bod gostyngiad wedi bod mewn lefelau troseddau dioddefwyr yn Sir y Fflint dros y flwyddyn ddiwethaf a bod gostyngiad wedi bod ledled gogledd Cymru mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol. Rhoddodd drosolwg o’r rhyngweithio sydd wedi digwydd gyda’r Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel ar ardaloedd blaenoriaeth i fynd i’r afael â thrais yn erbyn merched, oedolion diamddiffyn a phobl ifanc, yn ogystal â gwarchod cymunedau.

Siaradodd y Cynghorydd Johnson am y cysylltiadau rhwng tlodi, anghydraddoldeb a throsedd. Mewn ymateb i sylwadau am droseddau casineb,

byddai penodi Swyddog Cydlyniant Cymunedol i Sir y Fflint (gan ddefnyddio cyllid Llywodraeth Cymru) yn helpu i annog cymunedau i adrodd am ddigwyddiadau.

Soniodd yr Arolygydd Gareth Cust am y dulliau amrywiol sydd ar gael i adrodd am droseddau a chodi ymwybyddiaeth mewn ysgolion o faterion megis troseddau casineb a Llinellau Sirol. Soniodd hefyd am raglen hyfforddi gyda swyddogion yr heddlu yn Sir y Fflint i adnabod effeithiau Profiadau Niweidiol Yn Ystod Plentyndod (ACE).

Wrth gydnabod y pwysau sydd ar adnoddau'r Heddlu, cyfeiriodd y Cynghorydd Richard Jones at yr atodiad hwyr i adroddiad Monitro Cynllun y Cyngor a welir yn ddiweddarach yn y Rhaglen, lle'r oedd rhywfaint o ddata perfformiad yr Heddlu ar goll. Roedd hyn yn cynnwys nifer y digwyddiadau o gam-drin domestig a thrais rhywiol sy'n cael eu hadrodd a oedd yn faes blaenoriaeth.

Wrth sôn am gymhlethdod y pwnc, siaradodd y Prif Weithredwr am yr angen i ddeall uniondeb y data a ddarperir gan Heddlu Gogledd Cymru ac y byddai angen rhannu ffigwr manwl gywir gyda'r Pwyllgor unwaith y byddai ar gael.

Cytunodd yr Ymgynghorydd Rhanbarthol Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol bod angen i'r data hwn fod yn fwy clir oherwydd y ffordd y caiff digwyddiadau eu cofnodi. Er mwyn datrys hyn, roedd dadansoddwyr yn adolygu'r dull o gofnodi digwyddiadau er mwyn ymgorffori pob elfen o drais domestig a darparu darlun cywir.

Dywedodd y Cynghorydd Richard Jones y dylai esboniad fod wedi cael ei gynnwys i helpu i ddeall yr adroddiad er mwyn cymharu perfformiad flwyddyn ar ôl blwyddyn. Cytunodd y Prif Weithredwr a dywedodd mai dim ond y ffigwr yn yr adroddiad gwreiddiol y gallai'r Pwyllgor ei dderbyn ar hyn o bryd gyda'r cafeat ynghylch dadansoddi data parhaus.

Cyfeiriodd yr Arolygydd Cust at newidiadau arwyddocaol mewn cofnodi troseddau a chydymffurfio â safonau rheoliadau. Nodwyd ei gynnig i ddarparu ffigyrau'r flwyddyn hyd yma ar ddigwyddiadau cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Bateman, rhoddwyd gwybodaeth am wahanol fathau o Gaethwasiaeth Fodern ac am ddatblygu pecyn e-ddysgu i helpu swyddogion i adnabod arwyddion o'r troseddau hyn. Siaradodd y Prif Weithredwr am achosion yn y blynyddoedd diwethaf ac am rannu cudd-wybodaeth ar draws y rhanbarth.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Johnson am y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, dywedodd y Prif Weithredwr bod gostyngiad mewn cyllid cenedlaethol wedi arwain at newid i weithio'n fwy rhanbarthol ac mae'r Cyngor wedi cynyddu ei ddyraniad cyllid i wneud iawn am y diffyg er mwyn diogelu'r gwasanaeth.

Yn dilyn sylwadau gan y Cynghorydd Wisinger ynglŷn ag archwilio ffyrdd newydd o gefnogi pobl ifanc, dywedodd y Prif Weithredwr bod yr adroddiad

blynyddol yn darparu trosolwg o'r gwaith ar lefel uchel ac y gellid ystyried rhannu manylion gwaith ar themâu allweddol, o bosibl trwy Drosolwg a Chraffu.

Amlygodd y Cynghorydd Bithell enghreifftiau o waith pwysig sy'n digwydd o ddydd i ddydd, megis Wardeiniaid Cymdogaeth yn darparu cefnogaeth a help ymarferol i aelwydydd diamddiffyn sy'n ofni troseddau.

Wrth groesawu'r adroddiad positif, cyfeiriodd y Cynghorydd Thomas at rôl allweddol y Cyngor mewn nifer o fentrau troseddol ac at y gwasanaethau ataliol amrywiol.

Cafodd yr argymhellion, a newidiwyd i adlewyrchu'r ddadl, eu gwneud gan y Cynghorydd Richard Jones ac fe'u heiliwyd gan y Cynghorydd Cunningham a ganmolodd waith y bartneriaeth.

Diolchodd y Cadeirydd i'r cyfranwyr am eu presenoldeb.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn cefnogi cyflawniadau'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol dros y deuddeng mis diwethaf.

**37. AMRYWIO TREFN Y RHAGLEN**

Dangosodd y Cadeirydd y byddai newid bach yn nhrefn busnes ac y byddai eitem nesaf y rhaglen (Rhaglen Gwaith I'r Dyfodol) yn cael ei symud i ddiwedd y cyfarfod er mwyn galluogi cynrychiolwyr i siarad am yr eitemau a oedd ar ôl.

**38. ADRODDIAD MONITRO DIWEDD BLWYDDYN CYNLLUN Y CYNGOR 2018/19**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr grynodeb lefel uchel o gynnydd Cynllun y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn a oedd yn darparu dadansoddiad o feysydd o danberfformiad sy'n berthnasol i'r Pwyllgor. Derbyniodd y Pwyllgor atodiad diwygiedig a oedd yn cynnwys newidiadau bach. Rhoddwyd trosolwg o'r dangosyddion perfformiad â statws coch, byddai rhai o'r rheiny'n cael eu cyflawni dros amser gan fod y gwaith yn parhau. Roedd yr holl risgiau coch yn faterion mynych ac roedd rhai ohonynt yn deillio o effaith wedi'i oedi neu ffactorau allanol.

Ailadroddodd y Cynghorydd Richard Jones ei bryderon cynharach ynglŷn â gwybodaeth a oedd yn angenrheidiol i'w darllen ochr yn ochr â'r adroddiad yn cael ei rhannu'n hwyr. Mewn ymateb i sylwadau am y model arfarnu corfforaethol diwygiedig, dywedodd y Prif Weithredwr y byddai hyn yn gwella safon arfarniadau a'i fod yn gysylltiedig â hyfforddiant, ac y byddai'r targed cwblhau o 100% yn parhau. O ran nifer y bobl sy'n cael eu cadw yn yr ysbyty wrth aros am ofal cymdeithasol, dywedodd y Prif Weithredwr bod cymharu â chyfartaledd Cymru yn berthnasol a bod llawer iawn o waith yn mynd ymlaen oherwydd y materion niferus dan sylw. Awgrymodd y Cynghorydd Jones y dylid cyfeirio'r mater at y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd.

Cododd y Cynghorydd Heesom bryderon ynglŷn â diffyg gwybodaeth am feysydd risg uchel o dan y thema Cyngor Uchelgeisiol megis Cynllun Twf Gogledd Cymru a oedd yn hanfodol i economi Sir y Fflint.

Atgoffodd y Prif Weithredwr y Cynghorydd Heesom mai pwrpas yr adroddiad oedd rhoi crynodeb o gynnydd o ran cynnwys Cynllun y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn, fel y cytunwyd gan y Cyngor Sir. Rhoddodd ddiweddariad cryno am gynnydd y Fargen Dwf y byddai Sir y Fflint yn elwa ohoni. Mewn ymateb i sylwadau pellach, rhoddodd y Cynghorydd Thomas eglurhad am y fframwaith datblygu cenedlaethol ac ymatebodd i sylwadau am gyllid a geisiwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwaith lliniaru llifogydd.

Ar y dangosyddion perfformiad coch, dywedodd y Cynghorydd Banks bod y cynnydd yn bositif gyda'r datblygiad tai Cyngor yng Ngronant a chwblhad Grantiau Cyfleusterau I'r Anabl.

Cynigiwyd yr argymhellion gan y Cynghorydd Heesom ac fe'u heiliwyd gan y Cynghorydd Johnson.

**PENDERFYNWYD:**

Bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn a bod y Cabinet yn cael ei hysbysu bod y Pwyllgor wedi atgyfeirio ymchwiliad i oedi wrth drosglwyddo gofal (IP1.5.2.1 M01 (PAM/025) i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd.

## 39. ADRODDIAD GWELLA BLYNYDDOL ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU 2018-10

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr Adroddiad Gwella Blynyddol a oedd yn crynhoi'r gwaith archwilio a rheoleiddio a oedd wedi'i wneud gan Swyddfa Archwilio Cymru yn y Cyngor yn 2018/19. Daeth yr adroddiad i gasgliad positif bod 'y Cyngor yn cyflawni ei ofynion statudol mewn perthynas â gwelliant parhaus ond, fel pob cyngor arall yng Nghymru, mae'n wynebu heriau wrth fynd ymlaen'. Ni wnaethpwyd unrhyw argymhellion ffurfiol. Roedd ymateb y Cyngor i awgrymiadau gwirfoddol ar gyfer gwelliant yn cynnwys nifer o gamau gweithredu lefel isel.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn cael sicrwydd o Adroddiad Gwella Blynyddol Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer 2018/19.

## 40. DIWEDDARIAD CHWARTEROL CYFLOGAETH A'R GWEITHLU

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Gwybodaeth Busnes a Chydymffurfiaeth adroddiad gwybodaeth gweithlu ar chwarter cyntaf 2019/20 a oedd yn canolbwyntio ar berfformiad a thueddiadau sefydliadol.

Yn unol â chais y Cadeirydd, cytunwyd y byddai adroddiadau dangosfwrdd y dyfodol yn cynnwys ffigyrau am drosiant gweithwyr yn ogystal â chanrannau.

O ran y dirywiad mewn lefelau presenoldeb, roedd cydweithwyr Iechyd Galwedigaethol yn parhau i weithio gyda phortffolios i fynd i'r afael ag absenoldebau oherwydd straen, iselder a gor-bryder sef y rhesymau a gofnodir fwyaf o hyd. Roedd dadansoddiad data manwl wedi canfod bod y mwyafrif o'r absenoldebau hynny yn gysylltiedig â materion bywyd, er enghraifft ymdopi â phrofedigaeth. Byddai'r gwasanaeth 'CareFirst' yn cael ei ail-lansio yn dilyn cynnydd yn nifer y gweithwyr sy'n defnyddio'r gefnogaeth honno.

Y ffigwr mwyaf diweddar o ran cwblhau arfarniadau oedd 83%. Roedd disgwyl i'r adroddiad chwarterol nesaf ddarparu darlun mwy cywir a byddai Prif Swyddogion yn cael eu galw i fod yn atebol am unrhyw lithriant yn eu portffolios.

Yn dilyn cais gan y Cynghorydd Richard Jones, cytunodd y Prif Weithredwr y gellid rhannu'r model arfarnu newydd gyda'r Pwyllgor mewn sesiwn friffio cyn cyfarfod yn y dyfodol.

Mewn ymateb i sylwadau pellach, darparodd yr Ymgynghorydd Gwybodaeth Busnes a Chydymffurfiaeth eglurhad am ddata ar gyfer trosiant a sefydlogrwydd mewn ysgolion. Nododd hefyd mai nifer y lleoliadau asiantaeth gweithredol oedd 89 yn hytrach na 94.

Cafodd yr argymhellion, a newidiwyd i adlewyrchu'r ddadl, eu gwneud gan y Cynghorydd Jones ac fe'u heiliwyd gan y Cynghorydd Johnson.

**<u>PENDERFYNWYD:</u>**

(a) Nodi'r adroddiad Gwybodaeth Cyflogaeth a'r Gweithlu ar gyfer Chwarter 1, 2019/20;

(b) Bod yr adroddiad, yn y dyfodol, yn cynnwys ffigyrau yn ogystal â chanrannau ar gyfer trosiant gweithwyr; a

(c) Bod y model arfarnu newydd yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor mewn sesiwn friffio cyn cyfarfod yn y dyfodol.

## 41. ADRODDIAD PERFFORMIAD STRATEGAETH Y BOBL

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad diweddaru perfformiad am gyflawniadau tuag at y blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2018/19 ym mlwyddyn olaf Strategaeth y Bobl bresennol ar gyfer 2016-2019.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Partner Busnes Adnoddau Dynol a dynnodd sylw at gyflwyniad y model tâl newydd a gwelliant yr arlwy dysgu a datblygu sy'n cynnwys mwy o opsiynau ar-lein. Soniodd hefyd am safon uchel cyfranogwyr ar y rhaglen Brentisiaeth a datblygiad y Strategaeth Iechyd a Lles a fyddai'n helpu i gefnogi unigolion sy'n cael eu heffeithio gan faterion personol, fel yr amlygwyd mewn eitem flaenorol ar y Rhaglen.

Cynigodd y Cynghorydd Richard Jones argymhelliad ychwanegol y dylid diolch i'r tîm Adnoddau Dynol am eu gwaith ar y strategaeth a gafodd effaith bositif ar y gweithlu. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Bateman.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn nodi perfformiad yn ystod 2018/19 i gefnogi'r weledigaeth, canlyniadau a blaenoriaethau a nodwyd yn strategaeth 2016-2019 a chefnogi estyniad y strategaeth i 2019/20 i derfynu rhaglenni gwaith parhaus;

(b) Bod y Pwyllgor yn cefnogi datblygiad Strategaeth y Bobl newydd ar gyfer 2020/2023 a chynllun gweithredu cysylltiedig a fydd yn cael eu rhannu ar ffurf drafft er mwyn cael sylwadau cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r Cabinet; a

(c) Bod diolch yn cael ei roi i'r Tîm Adnoddau Dynol am eu gwaith wrth gynhyrchu a chynnal a chadw'r strategaeth.

**42. MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2019/20 MIS 4 A MONITRO RHAGLEN GYFALAF 2019/20 MIS 4 AC AMRYWIADAU ARWYDDOCAOL (LLEOLIADAU Y TU ALLAN I'R SIR, GWASANAETHAU PLANT A CHLUDIANT I'R YSGOL)**

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol adroddiad ar sefyllfa monitro'r gyllideb refeniw ar gyfer Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai a diweddariad am Raglen Gyfalaf 2019/20 ym mis 4. Yn unol â'r cais, rhannwyd adroddiad am yr amrywiadau arwyddocaol mewn Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir, Gwasanaethau Plant a Chludiant i'r Ysgol hefyd.

Monitro Cyllideb Refeniw

O ran Cronfa'r Cyngor, roedd y sefyllfa a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn - heb unrhyw gamau gweithredu newydd i ostwng pwysau costau a gwella'r elw o gynllunio effeithlonrwydd - yn ddiffyg gweithredol o £2.983m, sef gostyngiad o £0.118m ers mis Gorffennaf. Roedd y balans a ragwelir ar gyfer cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn yn £1.886m. Roedd y meysydd gorwariant ar gyfer Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir, Gwasanaethau Plant a Chludiant i'r Ysgol yn cael eu gwrthbwyso'n rhannol gan danwariant mewn Cyllid Canolog a Chorfforaethol. Rhagwelir y byddai cyfanswm terfynol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gytbwys pe bai'r Cabinet yn cymeradwyo'r argymhelliad i drosglwyddo £0.250m i Wasanaethau Oedolion o'r Gwasanaethau Adnoddau a Rheoleiddio i gyflawni newidiadau yn y galw am wasanaeth. Byddai'r holl feysydd gwario dianghenraid yn parhau i gael eu hadolygu er mwyn gostwng y gorwariant cyffredinol a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn.

Byddi'r gyfradd gyflawni o 90% a ragwelir ar gyfer arbedion a gynllunnir yn ystod y flwyddyn yn cynyddu i 91% pe bai'r Cabinet yn cytuno i ail-osod cyfnodau'r effeithlonrwydd o Gymhorthdal Aura.

Yn dilyn newidiadau i fformat yr adroddiad, dangosodd diweddariad am bwysau ysgolion y sefyllfa o ran diffygion mewn ysgolion uwchradd a fyddai'n cael eu monitro'n agos.

Ar y Cyfrif Refeniw Tai, rhagwelir y byddai gwariant yn ystod y flwyddyn £0.081m yn uwch na'r gyllideb, gan adael balans o £1.242m ar ddiwedd y flwyddyn sy'n uwch na'r lefel isaf a argymhellir.

Wrth groesawu'r newid yn fformat yr adroddiad, holodd y Cynghorydd Heesom pam nad oes cronfeydd wrth gefn a oedd heb eu clustnodi ar gyfer y Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) a'r Tîm Cyswllt Dioddefwyr o dan eu meysydd portffolio.  Esboniodd y Prif Weithredwr bod y ddau wedi cael eu cynnwys fel pwysau yng nghyllideb 2019/20 – fel y cytunwyd gan Aelodau – ac y byddai'r symiau ychwanegol hyn yn ateb gofynion deddfwriaethol newydd ac yn cynyddu capasiti i ddiwallu anghenion pobl ifanc ddiamddiffyn.  Cadarnhaodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol bod y symiau'n cael eu dyrannu i'r Gwasanaethau Cymdeithasol o'r Gronfa Arian at Raid yn ystod y flwyddyn.  Cytunodd Swyddogion ddarparu adroddiad ar y costau sy'n gysylltiedig â SuDS yn y dyfodol.

Mewn ymateb i sylwadau'r Cynghorydd Jones ar fformat yr adroddiad, eglurwyd bod y tabl yn gosod allan y sefyllfa gyffredinol ac y byddai'r naratif yn canolbwyntio ar amrywiadau arwyddocaol uwchben lefel a gytunwyd o £0.100m, gyda manylion llawn yr holl amrywiadau yn yr atodiad.  Siaradodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) am wneud llai o ddefnydd o weithwyr asiantaeth yn ei bortffolio a oedd yn aml yn anochel.

Cynigiwyd yr argymhellion gan y Cynghorydd Wisinger ac fe'u heiliwyd gan y Cynghorydd Heesom.

<u>Rhaglen Gyfalaf</u>

Roedd y rhaglen ddiwygiedig yn cynnwys dau swm a gymeradwywyd ac a ddygwyd ymlaen o 2018/19 a nifer o newidiadau ynghyd â dyraniadau cyllid a gadarnhawyd.  Roedd dau gais i ddwyn ymlaen i 2020/21 ac roedd dyraniadau ychwanegol yn bennaf oherwydd newidiadau i raglenni presennol.  Arhoswyd am gadarnhad gan Lywodraeth Cymru (LlC) ar gynnig cyllid grant mewn perthynas â'r pwysau o £0.350m i fynd i'r afael ag effaith llifogydd ar y rhwydwaith priffyrdd.  Pe bai'n cael ei dderbyn, byddai hyn yn gadael diffyg o £1.230m mewn cyllid ar gyfer cynlluniau a gymeradwywyd yn 2019/20.

O ran buddsoddiad yn nhrefi'r sir, rhoddwyd esboniad i'r Cynghorydd Jones am ddosbarthiad trefi fel y cytunwyd yn flaenorol.

Canmolodd y Cynghorydd Heesom y gwaith a oedd wedi'i wneud gan dimau mewn ymateb i lifogydd lleol.

Cynigodd y Cynghorydd Heesom yr argymhellion, ac fe'u heiliwyd gan y Cynghorydd Bateman.

<u>Amrywiadau arwyddocaol mewn Cludiant I'r Ysgol</u>

Cyflwynwyd Aelodau i'r Rheolwr Cyflawni Gwasanaeth, Priffyrdd a Gwastraff (Katie Wilby) a gyflwynodd yr adroddiad ar amrywiadau arwyddocaol mewn Cludiant I'r Ysgol.  Ymunwyd â hi gan Reolwr yr Uned Trafnidiaeth Integredig (Ceri Hansom); a'r Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio (Ruth Cartwright).

Roedd nifer o resymau dros y gorwariant gan gynnwys trefniadau cludiant i'r ysgol anstatudol yn y gorffennol a oedd yn cael eu terfynu’n raddol ar ôl cael cymeradwyaeth gan y Cabinet yn 2018. Nid oedd yr incwm o docynnau teithio rhatach a gynigir dros dro yn talu’r gost lawn ac roedd y cynnydd mewn prisiau contract ers colli gweithredwr bysiau wedi cael effaith bellach. Roedd goblygiadau ariannol hefyd yn gysylltiedig ag amseriad y flwyddyn ysgol a chynnydd mewn niferoedd disgyblion. Roedd cynnydd yn y galw am gludiant i Leoliadau y Tu Allan i’r Sir hefyd yn ffactor, gan gynnwys rhai unigolion ag anghenion cymhleth a oedd yn gorfod teithio ar eu pennau eu hunain neu mewn cerbydau arbenigol.

Rhoddodd swyddogion grynodeb o gynnydd ar amrywiaeth o gamau gweithredu lliniaru, fel y manylir yn yr adroddiad, gan gynnwys ailasesu contractau gwerth uwch a threfniadau contract i gyflawni gwerth am arian. Roedd camau gweithredu eraill yn cynnwys archwilio opsiynau cludiant mewnol a chysylltu â chydweithwyr Addysg i ragweld newidiadau yn y galw.

Dywedodd y Prif Weithredwr nad oedd unrhyw fesurau lliniaru eraill y tu hwnt i’r camau gweithredu ac y byddai gorwariant sylweddol erbyn diwedd y flwyddyn. Byddai’r pwysau hwn yn cael ei gynnwys fel ffactor yng nghyllideb 2020/21 a byddai gwaith gyda thimau Addysg yn helpu i ragweld y sefyllfa hirdymor.

Mewn ymateb i sylwadau gan y Cynghorydd Heesom, darparodd Rheolwr yr Uned Trafnidiaeth Integredig drosolwg o waith i fynd i’r afael â’r anomaleddau hanesyddol. Roedd y diffyg galw am docynnau teithio rhatach yn golygu bod nifer o aelwydydd yn canfod datrysiadau eraill er mwyn cludo plant i’r ysgol a byddai capasiti ar y gwasanaethau hynny sy’n derbyn chymhorthdal yn cael eu hadolygu. Talodd y Cynghorydd Thomas deyrnged i’r Rheolwr am ei waith ar hyn.

Wrth ddiolch i swyddogion am yr adroddiad manwl, cydnabyddodd y Cynghorydd Jones y camau gweithredu a oedd mewn lle i fynd i’r afael â’r problemau, ac ni fyddai wedi bod yn bosibl rhagweld y rhan fwyaf ohonynt.

Dywedodd y Prif Weithredwr bod angen mwy o hyblygrwydd ar gyllidebau i reoli newidiadau yn y galw am wasanaeth. Gan nad oedd unrhyw fesurau lliniaru pellach, byddai angen i'r gorwariant gael ei ddatrys yn gorfforaethol. Diolchodd i’r tîm a oedd wedi gweithio trwy’r anomaleddau.

<u>Amrywiadau arwyddocaol yn y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lleoliadau y Tu Allan i’r Sir</u>

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) adroddiad ar amrywiadau arwyddocaol mewn Gwasanaethau Cymdeithasol a Lleoliadau y Tu Allan i’r Sir a oedd wedi cael eu hystyried yng nghyfarfod diweddar y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid a Gofal Cymdeithasol ac Iechyd ar y cyd.

Roedd y cynnydd o 30% yn y galw am Wasanaethau Plant dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn adlewyrchu cynnydd o 57% yn nifer y plant sy'n derbyn gofal dros yr wyth mlynedd diwethaf. Y ffactor mwyaf arwyddocaol oedd bod

lefelau camddefnyddio sylweddau/alcohol ymysg rhieni, salwch meddwl a cham-drin domestig ymysg rhieni yn y Sir (y tri sbardun a gydnabyddir) i gyd yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Dylanwad arall oedd camfanteisio ar bobl ifanc trwy Linellau Sirol, ac er ei bod yn broblem genedlaethol, roedd yn risg arbennig i Sir y Fflint oherwydd ei lleoliad daearyddol.

Roedd gweithio ar y cyd rhwng Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg wedi helpu i ostwng niferoedd y Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir dros y flwyddyn ddiwethaf, fodd bynnag roedd goblygiadau ariannol yn deillio o nifer gynyddol o achosion cymhleth.

Nid oedd un datrysiad i'r pwysau ariannol oherwydd nifer y ffactorau allanol sydd y tu hwnt i reolaeth y Cyngor. Rhoddodd y Prif Swyddog grynodeb o rai o'r gweithgareddau sy'n digwydd i gael rhywfaint o effaith: roedd y rhain yn cynnwys fforwm amlasiantaeth i dargedu camfanteisio, cyflwyno mentrau newydd i ddenu gofalwyr maeth newydd ac archwilio opsiynau ar gyfer lleoliadau lleol ychwanegol. Wrth amlygu bod Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir yn fater cenedlaethol, siaradodd am y dull gweithredu a ddefnyddir gan y Cyngor i reoli hyn gan gynnal safon yr arlwy i bobl ifanc ar yr un pryd.

Cytunodd y Cynghorydd Richard Jones fod Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir yn broblem i bob cyngor ac roedd angen cymorth ariannol gan LlC. Awgrymodd y gellid rhoi mwy o ffocws ar y 'tri sbardun' i dargedu'r hyn sy'n ei achosi.

Wrth amlygu maint yr her, siaradodd y Prif Weithredwr am ehangder y gwaith megis chwilio am opsiynau llety lleol ac ymestyn y rhwydwaith maethu, gan gydnabod costau darparu gwasanaethau o safon a bregusrwydd lleoliad Sir y Fflint.

Gofynnodd y Cynghorydd Richard Jones i sylwadau gael eu cyflwyno i LlC a dywedwyd wrtho fod Y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi canmol dull gweithredu'r Cyngor i fynd i'r afael â'r materion arwyddocaol hyn yn ystod ymweliad diweddar. Dywedodd y Prif Weithredwr bod hyn yn ffurfio rhan o'r achos ar gymorth i wasanaethau galw uchel ac y dylai ymgorffori opsiynau cyfalaf / refeniw sy'n cael eu harchwilio gan swyddogion ar hyn o bryd i ddangos datrysiadau arloesol.

Croesawodd yr Uwch-reolwr (Plant a'r Gweithlu) drafodaethau gyda chydweithwyr Iechyd ar newid y dull o roi diagnosis i ymddygiad pobl ifanc er mwyn darparu cefnogaeth mewn ffordd wahanol. Mewn ymateb i sylwadau am gostau amrywiol darpariaeth gofalwyr maeth, cyfeiriodd at ffyrdd newydd o ddenu gofalwyr maeth a datblygu fframwaith cenedlaethol yng Nghymru.

Siaradodd y Cynghorydd Heesom ynglŷn â chydnabod safle Sir y Fflint fel Sir ffiniol.

Fel Aelod Cabinet, dywedodd y Cynghorydd Christine Jones bod Sir y Fflint – fel Cyngor sy'n croesawu maethu – yn cyflwyno mentrau i annog gofalwyr maeth newydd. Aeth ymlaen i gyfeirio at effaith Llinellau Sirol a Chredyd Cynhwysol dros ardal eang, a'r gwaith ataliol sy'n cael ei wneud gan y Cyngor a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.

Canmolodd y Cynghorydd Cunningham waith y timau yng nghyd-destun yr heriau ariannol. Er ei fod yn cefnogi mentrau i fynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi'r galw cynyddol am y gwasanaethau, tynnodd sylw at bwysigrwydd cyfrifoldeb yr unigolyn.

Siaradodd y Cynghorydd Richard Jones ynglŷn â pha mor bwysig yw deall y data. Cynigodd argymhelliad ychwanegol i gydnabod y dylid rhoi mwy o ffocws ar yr hyn sy'n achosi problemau iechyd meddwl.

Dywedodd y Prif Weithredwr bod buddsoddiad mewn gwaith ataliol yn flaenoriaeth ynghyd â datblygu datrysiadau mwy lleol a chost effeithiol. Cafodd pwysau cyllidebol ar gyfer y ddau faes eu cynnwys yn y rhagolwg ar gyfer 2020/21 a byddent yn cael eu monitro. Roedd gwariant dianghenraid ym mhob portffolio yn cael ei ailasesu i bennu'r effaith ar arian wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn.

Wrth roi diweddariad i'r Pwyllgor am drafodaethau gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, dywedodd y Prif Weithredwr ei fod yn aros am eglurhad ynglŷn â p'un a yw costau cyflog a phensiynau athrawon eisoes wedi'u cynnwys yn y gyllideb sylfaenol ac felly heb ei gynnwys yn y refeniw ychwanegol o £593m a roddwyd i LlC o'r adolygiad gwariant. Byddai diweddariad yn cael ei roi i'r Pwyllgor ar sefyllfa'r gyllideb.

Talodd y Cynghorydd Banks deyrnged i bob swyddog am eu gwaith caled ar y ddau adroddiad.

Cynigodd y Cynghorydd Richard Jones bod yr argymhellion yn adlewyrchu'r ddadl a'r pwyntiau a godwyd. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Heesom.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn nodi adroddiad monitro Cyllideb Refeniw 2019/20 Mis 4 a chadarnhau, ar yr achlysur hwn, nad oes unrhyw faterion penodol i'w cyflwyno gerbron y Cabinet;

(b) Bod y Pwyllgor yn nodi adroddiad Rhaglen Gyfalaf 2019/20 Mis 4 a chadarnhau, ar yr achlysur hwn, nad oes unrhyw faterion penodol i'w cyflwyno gerbron y Cabinet;

(c) Ar ôl adolygu dadansoddiad pwysau ariannol y portffolio Strydwedd a Thrafnidiaeth, bod y Pwyllgor yn cefnogi'r gwaith parhaus i liniaru'r pwysau hynny ac yn diolch i bawb dan sylw am eu gwaith caled a'u hymrwymiad;

(d) Ar ôl adolygu dadansoddiad pwysau ariannol y portffolio Gwasanaethau Plant a Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir, bod y Pwyllgor yn cefnogi'r gwaith parhaus i liniaru'r pwysau hynny ac yn diolch i bawb dan sylw am eu gwaith caled a'u hymrwymiad;

(e) Bod y Pwyllgor yn cefnogi gwneud achos i Lywodraeth Cymru am gymorth i dalu costau uchel gofal preswyl i blant ag anghenion cymhleth tra bo'r

Cyngor yn datblygu opsiynau lleoliadau lleol mwy cost effeithiol i ymateb i'r galw cynyddol;

(e) Bod y swyddogion yn cael y dasg o ymchwilio i ddatrysiadau 'buddsoddi i arbed' i ostwng costau cyffredinol yn y meysydd hyn sy'n peri pryder; a

(g) Bod y swyddogion yn cynnal dadansoddiad o'r ystadegau ar gyfer nifer uwch o achosion o gamddefnyddio sylweddau neu alcohol ymysg rhieni, salwch meddwl a cham-drin domestig ymysg rhieni sy'n cael eu cofnodi yn Sir y Fflint, ac adrodd yn ôl faes o law.

**43. <u>RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL</u>**

Wrth gyflwyno'r Rhaglen Gwaith I'r Dyfodol bresennol i'w hystyried, dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y byddai hanner awr yn cael ei neilltuo ar gyfer sesiwn friffio am y model arfarnu newydd.

Soniodd y Prif Weithredwr am y posibilrwydd y byddai angen oedi'r eitem ar Neuadd y Sir tan fis Tachwedd ac efallai y byddai diweddariadau lefel uchel ar safle'r gyllideb genedlaethol ar gael erbyn mis Hydref a Thachwedd.

**<u>PENDERFYNWYD:</u>**

(a) Bod y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol yn cael ei gymeradwyo, gan nodi bod eitemau ar gyfer cyfarfod mis Hydref yn debygol o newid;

(b) Bod diweddariadau lefel uchel am y gyllideb yn cael eu cynnwys ar y rhaglen am y ddau gyfarfod nesaf; a

(c) Bod Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor, yn cael ei awdurdodi i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

**44. <u>AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL</u>**

Roedd un aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 1.20pm)

**…………………………**
**Y Cadeirydd**